------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Dogfennau Ategol - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 1 Chwefror 2024

Amser: 09.30 - 12.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams,** Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru


# Hybrid - Pecyn atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**4.1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 1 - 3)

Dogfennau atodol:

- Ymateb gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth - 29 Ionawr 2024

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/3064/24

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu a'r Gymraeg,
Y Pwyllgor Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

29 Ionawr 2024

Annwyl Delyth

Diolch am y cyfle i drafod cynigion cyllideb ddrafft 2024-25 ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi yn ein sesiwn dystiolaeth ar 17 Ionawr. Dyma'r wybodaeth bellach y gwnaethoch gais amdani er mwyn llywio eich gwaith craffu parhaus ar y gyllideb .

**Blaenoriaethu gwariant i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol.**

Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gydag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ddeall eu hanghenion cynnal a chadw hirdymor ac unrhyw oblygiadau ar gyfer diogelwch y casgliadau cenedlaethol. Pan ddaw cyllid ychwanegol, rwy'n gwneud popeth o fewn fy ngallu i gefnogi'r sefydliadau hyn. Er enghraifft, rydym ar hyn o bryd yn ystyried ceisiadau gan Amgueddfa Cymru am gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon ar brosiectau ac eitemau cyfalaf, a bydd rhai ohonynt yn helpu i fynd i'r afael â'u problemau cynnal a chadw hirdymor. Rwyf hefyd yn darparu £1.5m ychwanegol i'r Llyfrgell Genedlaethol ar draws 2023/24 a 2024/25 i helpu i ailddatblygu un o'i mannau storio. Mae hyn yn ychwanegol i'w grant a'r cyllid datgarboneiddio ychwanegol sy'n cael ei roi i'r ddau sefydliad.

Rwy'n cydnabod yr heriau y mae Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol yn eu hwynebu wrth gynnal ystad hanesyddol ac felly'n diogelu'r casgliadau yn eu gofal. Byddaf yn parhau i edrych ar rai o'n hymrwymiadau gwariant presennol, megis ar gyfer Amgueddfa Gogledd Cymru.

**Llythyrau Cylch Gwaith a Strategaeth Ddiwylliant**

Rwy'n dal yn hyderus y gallaf gyhoeddi blaenoriaethau strategol ar gyfer diwylliant erbyn diwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn adolygu cynnwys y strategaeth ddrafft o ystyried y cyd-destun cyllidebol newydd ac yn ystyried hyn mewn ymgynghoriad â Grŵp Llywio y strategaeth ddiwylliant.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn cydbwyso'r angen i ddarparu cyfeiriad strategol ac i gynnal y weledigaeth a'r uchelgeisiau tymor hir a gynhwysir yn y strategaeth ddrafft gyda dull pragmatig o weithredu i gefnogi cyflawni'r uchelgeisiau hyn y gellid eu datblygu yn y tymor byr.

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, byddaf yn adolygu Llythyrau Cylch Gwaith yn dilyn Setliad y Gyllideb.

**Diswyddiadau Llywodraeth Cymru mewn cyrff hyd braich**

Mae Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru wrthi'n ymgynghori â'u staff ar gynlluniau diswyddo gwirfoddol arfaethedig sydd i fod i ddod i ben y flwyddyn ariannol hon.  Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos ac yn gyflym gyda chydweithwyr ym mhob un o'r sefydliadau hyn ac rwyf wrthi'n edrych a allaf sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol hon i helpu gyda chostau'r cynlluniau diswyddo hyn. Hyd nes y bydd y gwaith sydd ar y gweill yn y flwyddyn ariannol hon wedi'i gwblhau, nid yw'n bosibl i'n Cyrff Hyd Braich Diwylliant gadarnhau a fydd angen cynlluniau diswyddo pellach y flwyddyn ariannol nesaf. O ran Chwaraeon Cymru, nid yw'n cynnig cynllun diswyddo ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, nid oes gennym gyllid ychwanegol i gefnogi cynlluniau diswyddo yn 2024/25.

**Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol – Safle angori**

Mae swyddogion wedi rhoi sicrwydd y byddwn mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau ym mis Mawrth 2024, ar ôl cwblhau'r broses asesu. Yna bydd adnoddau ar gael i gefnogi datblygu achos busnes ar gyfer y safle a ddewiswyd yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.

Bydd tri cam datblygu yr achos busnes yn ystyried opsiynau dylunio a chost, gan wneud lefel y buddsoddiad y bydd ei angen i ddarparu oriel angori yn gliriach. Yna byddai angen gwneud penderfyniad buddsoddi bryd hynny yn seiliedig ar fforddiadwyedd a blaenoriaethau ehangach. Bydd angen i unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â lefel y buddsoddiad sydd ei angen, fod yn sensitif i'r hinsawdd ariannol a'r gostyngiadau diweddar i gyllidebau rhaglenni sy'n cefnogi'r sector.


**Ffioedd mynediad i atyniadau am ddim ar hyn o bryd**

Fel pob corff hyd braich Diwylliannol, mae Amgueddfa Cymru yn archwilio'r holl gyfleoedd sydd ar gael i godi arian ac opsiynau ar gyfer cynhyrchu incwm pellach. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ystod o opsiynau posibl ar gyfer codi tâl yn y dyfodol, a dim ond un ohonynt sy'n codi tâl am fynediad i rai neu ei holl amgueddfeydd yn y tymor hwy. Rwyf wedi cael sgwrs gychwynnol gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Amgueddfa Cymru am hyn yn ystod fy nghyfarfod chwemisol diweddaraf gyda hwy lle trafodwyd eu bwriad i ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl.

Yn gywir



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi



**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth